

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 36

Key language

Pam na
Chdi
Byth/Erioed

New Words

Hanes
Dychmygu
Diflas
Oerni
Synnu
Poeri
Cysylltiad
Addo
Twyll
Twyllo
Cydwylbod
Maddeuant
Annwyl
Gwadu
Amgylchiadau
Dymuniad
Dadlwytho
Trwm
Holli
Gwrthod
Rhyfedd
Yn bendant
O nerth i nerth
Cymer ofal
Dim eiliad i golli
Treulio
Diffodd
Yr un fath

Main Grammatical Points

Pam na

Brian asks Agnes: Pam na cha i gysgu hefo chdi? And Pam na cha i ddwad yn ôl ata chdi

Pam na cha i? Why can't I

If we look closely at the construction

Cha i is the mutated form of Ca i – I'll have

The aspirate mutation is caused by the negative na form which follows Pam – Pam na cha i

Full forms are:

Pam na cha i?	Why can't I?
Pam na chei di?	Why can't you?
Pam na chaiff hi?	Why can't she?

Pam na chaiff o?	Why can't he?
Pam na chaiff e?	Why can't he?
Pam an chawn ni?	Why can't we?
Pam na chewch chi?	Why can't you?
Pam na chân nhw	Why can't they?

Note the other mutations

Pam na thali di?	Why don't you pay?
Pam na phryni di?	Why don't you buy?

Chdi

Did you also note in the two sentences that Brian used the form chdi – chdi

Chdi is commonly used in north Wales for ti

Hefo chdi means with you

Wela i chdi	I'll see you
Hebddo chdi	without you

Byth/Erioed

Byth and erioed are two words that are used to convey ever/never or always in English.

Firstly let's have a look at byth.

Byth is used in negative sentences in present and future tenses to convey the meaning never. Note that byth takes the place of ddim.

A ches i byth hanes y Rali AA yn iawn	And I never had the story of the AA Rally from you
Dydw i byth yn mynd i siarad hefo fo to	I'm never going to speak to him again

In positive sentences in present and future tenses byth is used to convey ever or always

Dw i'n amau os alla i faddau iddo fe byth	I doubt whether I will ever forgive him
Cymru am byth	Wales for ever
Paid ti byth â dod yn agos ata i eto	Don't you ever come near me again

And now erioed

The general rule is that erioed is used in past tense negative sentences to mean never – never at any time.

Erioed can be placed at the end of the sentence:

Dw iddim wedi bod i Lundain erioed.	I've never been to London
or it can replace ddim	
Dw i erioed wedi bod i Lundain	

Chwrddais i erioed â hi.	I've never met her.
or	
Chwrddais i ddim â hi erioed.	

In Past tense positive sentences and questions erioed means ever or always

Mae e wedi byw yno erioed - He's always lived here
Wyt ti wedi edrych arnat ti dy hun erioed - Have you ever looked at yourself?

Ysbyty Brynaber: Episode 106

Brian and Agnes discuss their future. Agnes finally decides to give the marriage one more chance. But she gives Brian an ultimatum.

Jenny and Arwyn again discuss the incident on the boat and Dic's disappearance.

Geirfa

Hanes	story (lit. history)
Dychmygu	to imagine
Diflas	miserable
Oerni	cold
Synnu	to be amazed
Poeri	to spit
Cysylltiad	connection
Addo	to promise
Twyll	deception
Twyllo	to deceive
Cydwylbod	conscience

Golygfa 1

Agnes - A ches i byth hanes y Rali AA yn llawn 'da ti...

Brian - Sdim lot i ddweud. Yr un hen griw...

Agnes - Yr un hen wynebaw?

Brian - Fel arfer...

Agnes - Joiodd Jac Whelan 'te?

Brian - Roedd Jac wrth ei fodd.

Agnes - Allen i dychmygu dim byd mwy diflas na sefyll yn yr oerni yn gwyllo ceir rasio yn pasio heibo trwy'r nos...

Brian - Mi fasa chdi yn synnu faint o ferched sy'n mwynhau gweld rali...Agnes?

Agnes - Beth?

Brian - Ti'n gwybod heno...

Agnes - Paid â dweud rhagor. Dw i'n gwybod yn gwmws beth ti'n mynd i ddweud...

Brian - Pam ddim?

Agnes - Na.

Brian - Pam na cha i gysgu hefo chdi?

Agnes - Mae hi jest yn rhy gynnar.

Brian - Ond...

Agnes - Ond beth?

Brian - O'n i'n meddwl ein bod ni wedi cytuno...Ein bod ni wedi cytuno ein bod ni'n mynd i fyw fel teulu eto...A'n bod ni'n mynd i aros felly...

Agnes - Dyna beth dyn ni wedi gytuno...

Brian - Pam na cha i ddod nôl ata chdi?

Agnes - Alla i ddweud rhywbeth wrthot ti, Brei?

Brian - Wrth gwrs. Unrhyw beth...

Agnes - Pan ddaeth Wendy Keating ato i y prynhawn ofnadwy hwnnw...Pan o'n ni'n dwy yn siarad tu fas i'r ty 'ma...

Brian - O, Agnes...

Agnes - Na, na. Mae hyn yn bwysig...

Brian - Dyn ni wedi mynd trwy hyn i gyd sawl gwaith...

Agnes - Gwrandda ar beth sy' 'da fi i ddweud...Pan wnaeth Wendy Keating agor fy llygaid i i beth oedd yn mynd ymlaen...

Brian - ...hen hanes...

Agnes - Agor fy llygaid i i dy dwyll di...Dy fod ti'n talu am fflat iddi i lawr yn y Marina, tra o'n i'n gweitho i dalu hanner morgej y ty 'ma...

Brian - Plis -

Agnes - A bod 'stash' o arian 'da ti mewn 'off-shore accounts'...A dy fod ti'n dad i'w babi hi...

Brian - Beth ti'n drio'i ddweud?

Agnes - Trio dweud ydw i fod beth ddwedodd hi'n wir. 'It's time you opened your eyes. Dyna beth boerodd hi mas. 'And it's also high time that you finally grew up, you stupid arrogant bitch.'

Agnes - A ti'n gwybod beth, Brian?

Brian - Beth?

Agnes - Yn ystod yr wthnosau diwetha 'ma, dw i'n credu bod fi wedi tyfu lan. A dw i wedi agor fy llygaid...A dw i'n dweud wrthot ti nawr: O.K. Dere i ni roi cynnig arall arni...Dere nôl i'r gwely ato i...Dere inni drio achub y briodas 'ma... Ar yr amod dy fod ti'n torri pob cysylltiad 'da'r fenyw Keating 'na am byth...Ti'n addo?

Brian - Dw i'n addo.

Agnes - Ond - ac mae hwn yn ond mawr - os ffeinda i mas dy fod ti wedi 'nhwyllo i eto...Dim ots pa mor fach fydd y twyll - fydd dim maddeuant y tro nesa'. Ti'n deall?

Brian - Ydw.

Agnes - Wyt ti?

Brian - Ydw, cariad.

Golygfa 2

Arwyn - O'n i'n becsu bod ti'n cysgu, cariad...

Jenny - Hanner gwrandio ar y radio...

Arwyn - Book at Bedtime, ife? Nightcap bach? Wisgi? Liciet ti wydryn o Jamesons?

Jenny - Na...

Arwyn - Ti'n hoffi Jamesons...Neu mae Brandi, wrth gwrs...Martell...Neu'r Congnac....

Jenny - ...brynaist ti yn y 'duty free' yn Orlando pan est ti a fi ar wyliau yno llynedd...

Arwyn - Sy'n teimlo mor bell yn ôl erbyn hyn, rhywsut. Jenny, alla i eistedd ar y gwely am eiliad?

Jenny - Oes rhaid? Dw i wedi blino...

Arwyn - Mae rhywbeth dw i wedi bod eisie ddweud ers sbel fach nawr...Ers y ddamwain...Ers i Richard druan ein gadael ni...

Arwyn - Wy'n ffindo hyn yn anodd i ddweud...Ond ma'n rhaid i fi gael ddweud e...Er mwyn cael y cyfan 'off' fy 'chest'...

Jenny - Pam na wnest ti ddim rhoi life-belt iddo fo?

Arwyn - Dyna'r peth, ti'n gweld...Dyna'r peth...

Jenny - Beth?

Arwyn - Heb i ti ddweud dim byd tan heno...O'n i'n gwybod...

Jenny - Gwybod beth?

Arwyn - Dy fod ti yn dy galon yn rhoi bai arna i am beth ddigwyddodd ar y môr...

Y noswaith yna aethon ni i weld Mam...Nid Mam o'dd wedi dy ypseto di...Ond fi. Dyna'r gwir ynte?

Jenny - Roedd det ti ar fai.

Arwyn - Damwain oedd hi!

Jenny - Damwain?

Arwyn - Ie! Damwain! A dim byd arall! Beth? Fyddai hi'n well 'da ti os bydden i wedi boddi yn ei le fe? Dyna beth ti'n drio'i ddweud?

Jenny - Dw i'n dweud dim. Dy gydwybod di sy'n siarad rwan, Arwyn - ddim y fi...

Arwyn - Wel, diolch am drio deall fy mhoen i, Jenny.

Ysbyty Brynaber: Episode 107

Wendy meets up with Jenny Saunders and they discuss the discovery of the body on the Irish coast.

Arwyn reaffirms her wish to identify the body.

Geirfa

Annwyl	dear
Gwadu	to deny
Amgylchiadau	circumstances
Dymuniad	wish
Dadlwytho	to unload
Trwm	heavy
Holli	to split
Gwrthod	to refuse
Rhyfedd	strange
Yn bendant	definitely

Golygfa 1

Wendy - Well, well. Long time no see...

Jenny - Wendy.

Wendy - Doctor Saunders. A sut mae pethau lan yn y 'gulag'?

Jenny - Mae'r ysbyty yno...

Wendy - Good. Falch o glywed. Fyddai'n gas 'da fi feddwl fod yr hen le annwyl wedi cwmpo i lawr...

Jenny - A sut mae pethau hefo ti?

Wendy - Same as usual...

Jenny - Gwaith?

Wendy - You must be joking!

Jenny - Wyt ti wedi bod yn edrych am waith?

Wendy - Yeah. Well, sort of. Ti wedi gweld yr Evening Post?

Jenny - Ydw...

Wendy - Terrible isn't it...?

Jenny - Fydd corff Doctor Allen yn ôl yn y 'mortuary' erbyn bore fory, mae'n debyg...

Wendy - Pam oedd yr holl 'hassle' i gael e yn ôl o lwerddon 'te?

Jenny - 'Red tape'.

Wendy - Poor sod. Tangled in hassles even in death...

Jenny - Ie, wel...

Wendy - Rhaid ei fod e'n really rough arnot ti a hubby...

Jenny - Wna i ddim gwadu nad ydy o...

Wendy - What?

Jenny - Ydy. Tough. Rydan ni wedi cael amser anodd iawn...

Wendy - Dic drowning trying to save your husband. Sut mae Doctor Saunders 'te?

Jenny - Gorau gall o...O dan yr amgylchiadau...

Wendy - Who's going to do the I.D. on Richard then?

Jenny - Ni.

Wendy - Who's ni?

Jenny - Arwyn a fi...

Wendy - Really?

Jenny - Dyna oedd dymuniad y teulu. Roedd Dic yn ffrind da.

Wendy - Yeah...Well...Best of luck...I'll see you at the funeral...Beth yw e i fod? Burial or cremation?

Jenny - Dw i ddim yn hollol siwr...

Wendy - Ti'n gwbod beth?

Jenny - Beth?

Wendy - At one time he was the true love of my life.

Golygfa 2

Arwyn - Ond er mwyn popeth, Mam...beth yw'r broblem? Dwedwch yn stret...
Na, na...dw i am i chi ddweud wrtho i nawr...Ond pam? Pam rydych chi'n methu dweud wrtho i tros y ffôn?
Jenny - Dw i adra...
Arwyn - Ie, ie...Na, na, Mam - mae Jenny yn ôl gartre...
Jenny - Dy fam? Ddim eto?!

Arwyn - Plis, dwedwch wrtho i nawr, Mam...
Jenny - Arwyn, roi di help llaw imi i ddadlwytho'r car?
Arwyn - Beth?
Jenny - Dadlwytho y car...Mae llond y cefn o neges o'r archfarchnad...
Arwyn - Fyddda i 'da ti nawr, Jen...Gad i fi gwpla 'da Mam gynta...
Jenny - Dweud wrthi am fynd i grafu!
Arwyn - Sh! Rhag ofn iddi dy glywed ti! Helo? Mam? Mam - Dw i'n gorfod mynd nawr...Dw i eisiau rhoi help llaw i Jenny i ddod a'r neges i mewn i'r ty ...Fe wela i chi yn nes mlaen - iawn? Hwyl am y tro 'te....Dere â'r bag trwm yna i fi...
Jenny - Bydd yn ofalus rhag ofn iddo fo hollti...
Arwyn - Mawredd y byd! Mae e'n drwm.
Jenny - Poteli sydd ynddo fo...Beth oedd dy fam eisiau?
Arwyn - Does dim 'guess' 'da fi. Roedd hi'n gwrthod dweud...
Jenny - Rhyfedd...
Arwyn - Ie. Rhyfedd iawn. A dw i wedi addo mynd draw i'r Cartref i'w gweld hi yn nes ymlaen...
Jenny - Ti'n gwbod pwy wnes i weld yn yr archfarchnad jest rwan?
Arwyn - Pwy?
Jenny - Wendy Keating.
Arwyn - O, ie...A sut oedd hi?
Jenny - Dal yn ddi-waith.
Arwyn - O hyd?
Jenny - Ydy. Ond siarad am Richard wnaethon ni fwya'...
Arwyn - Ah! Wrth gwrs. Roedd y ddau yn gariadon...
Jenny - Oedden...
Arwyn - Caru yn glos iawn ar un adeg, os wy'n cofio'n iawn...
Jenny - Clos iawn...
Arwyn - Beth aeth o'i le 'te?
Jenny - Does gen i'm syniad.....
Arwyn - Ydy hi'n gwbod fod corff Richard yn dod nôl o lwerddon heno?
Jenny - Ydy. Roedd hi newydd ddarllen yr Evening Post...
Arwyn - Richard, druan...Wyt ti'n siwr dy fod ti eisiau dod i'r 'mortuary' bore 'fory?
Jenny - Ydw...Ydw - yn bendant.

Ysbyty Brynaber: Episode 108

Wendy calls at Brian's garage where she's taken ill.

Arwyn and Jenny go to the mortuary to identify the body.

Brian takes Wendy to the hospital but refuses to accompany her further than the car park. Wendy gives Brian a piece of her mind.

Geirfa

O nerth i nerth	from strength to strength
Cymer ofal	take care
Dim eiliad i'w golli	not a second to lose
Treulio	to spend (time)
Diffodd	to switch off
Yr un fath	the same

Golygfa 1

Brian - ...Diolch yn fawr iawn iti, Dennis...Sut mae tîm darts y Cross dyddiau yma? Yn mynd o nerth i nerth gobeithio? Wendy...

Wendy - O!...

Brian - Beth sy? Beth sy'n bod?

Wendy - Not feeling too great...Just let me sit down...

Brian - Ti'n O.K.? Ti ddim wyt ti? Tyrd i'r swyddfa...Cymer ofal rwan...

Wendy - The pain...

Brian - Ble?

Wendy - Fan hyn...

Brian - Fan 'ma?

Wendy - Na, it's...Lower down...

Brian - Fan hyn?

Wendy - Aw! Aw!

Brian - Pryd wnest ti ei deimlo fo gynta?

Wendy - Rhyw awr neu ddwy awr yn ôl...

Brian - Ac ydy o wedi mynd yn waeth?

Wendy - Beth?

Brian - Ydy o'n waeth rwan nag oedd o awr neu ddwy yn ôl? Is it worse pain than before?

Wendy - Ydy.

Brian - Dw i'n mynd i ffonio ambiwlans...

Wendy - O!

Brian - Tyrd!

Wendy - What?

Brian - Coda...

Wendy - Leave me alone...

Brian - Na...Tyrd...

Wendy - Beth wyt ti'n wneud?

Brian - Mynd â ti i'r ysbyty...

Wendy - Let me be for a moment...

Brian - Wendy: does dim eiliad i golli...

Wendy - Am I going to lose our baby...? Brian, I'm worried sick...

Golygfa 2

Agnes - Ti'n siwr dy fod ti eisiau gwneud hyn, Jenny?

Jenny - Ydw.

Agnes - Does dim rhaid iti ti'n gwybod...

Arwyn - Ar ôl treulio gymaint o amser yn y môr...

Agnes - Ti yn deall hynny on'd wyt ti

Jenny - Ydw....Ond dw i am ei weld o yr un fath...
 Arwyn - Jeremy, would you be so kind as to show us the body?
 Agnes – Aros.
 Arwyn - Pam?
 Agnes - Paid tynnu'r blanced i ffwrdd eto...
 Arwyn - Beth? Oes problem?
 Agnes - Na, jest eisiau...
 Agnes - Sori.
 Arwyn - lawn? O.K. Jeremy...you can pull the sheet back now...
 Agnes - Nid Richard yw e.
 Arwyn - Nage.
 Jenny - Pwy ydy o 'te?
 Arwyn - Duw a wyr...
 Agnes - Wel, ble mae corff Doctor Allen 'te?

Golygfa 3

Brian - Rydyn ni yma rwan...Rydy n ni yma...lawn?
 Wendy – O!
 Brian - Dw i ddim yn mynd i ddiffodd yr injian...
 Wendy - Beth?
 Brian - Dw i ddim yn mynd i ddiffodd yr injian...Tyrd...Alli di sefyll...?
 Wendy - Pam dwyt ti ddim wedi parcio'r car...?
 Brian - Mae drws yr ysbyty yn fan'na...
 Wendy - What?
 Brian – Dw i ddim am ddod i mewn i'r ysbyty hefo chdi...
 Wendy - But I need you, Brian!
 Brian - Wendy -
 Wendy - Pam ti ddim yn dod i'r ysbyty 'da fi?
 Brian - Alla i ddim...
 Wendy - Just park the bleedin' car will you?!
 Brian - I'm not coming in with you! I can't!
 Brian - Sori...
 Wendy - Because of her? That bitch wife of yours? Because she'll see us together in the hospital?
 That's the reason, isn't it?
 Brian - Cymer ofal, cariad...
 Wendy - Sod off then! Just sod off out of my life!
 Brian – Dw i eisiau dwad hefo ti...Dw i wir isio...Dw i'n poeni amdanat ti...Ond mae pethau mor gymhleth...Dw i jyst ddim yn gallu...! Try to understand...!
 Wendy - Don't you ever come near me ever again...!

Synopsis

Agnes has decided that she is going to give Brian one more chance but with one important warning. The body that has been swept up on an Irish beach is not that of Dic Allen. Brian unceremoniously leaves Wendy in the hospital car park.

Test yourself

1. What is the Welsh word for 'conscience'?
 - a) gwybod
 - b) **cydwybod**
 - c) adnabod

2. What's the word in north Wales for 'you' – (the familiar form?)
 - a) **chdi**
 - b) chi
 - c) chwi

3. How would you translate 'Why can't I' into Welsh?
 - a) **Pam na cha i?**
 - b) Pam na fyddi di'n cael?
 - c) Pam na ches i?

4. How would you say 'I'm never going to speak to her again' in Welsh?
 - a) Dw i erioed yn mynd i siarad â hi eto
 - b) **Dw i byth yn mynd i siarad â hi eto**
 - c) Dw i byth wedi siarad a hi eto

5. How would you say 'I've never been to London' in Welsh?
 - a) **Dw i erioed wedi bod i Lundain**
 - b) Dw i byth yn mynd i Lundain
 - c) Dw i erioed yn mynd i Lundain

6. What is the Welsh for 'from strength to strength'?
 - a) **O nerth i nerth**
 - b) O nerth i fwy
 - c) O nerth i fyny